Rhaglen Beilot Arweinyddiaeth Ymgynghorol i Benaethiaid yng Nghymru

Mai 2007

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Cefndir **2**

Y Rhaglen Ddatblygu ar gyfer Arweinyddiaeth Ymgynghorol 2
Y rhaglen beilot yng Nghymru 2

Prif ganfyddiadau **4**

Argymhellion **5**

Effaith y rhaglen arweinyddiaeth ymgynghorol ar benaethiaid ac AALlau **6**

Dewis penaethiaid 6
Materion yn codi o ddull hyfforddi'r rhaglen ddatblygu 6
Effaith y rhaglen ar benaethiaid 7
Effaith y rhaglen ar AALlau 7

Cyflwyniad

1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i godi ansawdd arweinyddiaeth ysgolion yng Nghymru drwy gynnig cyfleoedd datblygu i benaethiaid. Mae'r cyfleoedd hyn yn rhan o'r Rhaglen Genedlaethol Datblygu Prifathrawiaeth (NHDP). Mae'r rhaglen hon yn cynnwys y tri phrif gam datblygiad proffesiynol i benaethiaid. Y rhain yw'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (NPQH), y Rhaglen Sefydlu Broffesiynol i Benaethiaid (PHIP) a'r Rhaglen Arweinyddiaeth i Benaethiaid mewn Swydd (LPSH). Ym mis Chwefror 2005, ymgymerodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ag adolygiad pum mlynedd o'r NHDP.

2 Nododd yr adolygiad fod potensial i arweinwyr ysgol profiadol yng Nghymru ddefnyddio'u medrau a'u profiadau i gefnogi gwella ysgolion, yn eu hysgolion eu hunain ac mewn ysgolion eraill fel ei gilydd yn ardal eu hawdurdod lleol. I fynd i'r afael â'r mater hwn, penderfynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal peilot wedi'i anelu at benaethiaid sydd wedi cwblhau'r tri cham datblygiad proffesiynol presennol.

3 Yn 2006 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Safonau Cenedlaethol Diwygiedig ar gyfer Penaethiaid yng Nghymru'. Mae'r Safonau'n rhoi arweiniad sy'n tanategu'r NHDP yng Nghymru ond nid ydynt yn diffinio'i strwythur.

4 Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn, fel rhan o'i gylch gwaith ar gyfer 2006 – 2007, roi cyngor ar ganlyniadau un o'r rhaglenni peilot. Rhaglen yw hon o'r enw'r 'Rhaglen Ddatblygu ar gyfer Arweinyddiaeth Ymgynghorol'. Mae'n rhaglen sydd eisoes yn bodoli yn Lloegr ac fe'i cynigir gan y Coleg Cenedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Ysgolion (NCSL). Cymerodd pedwar ar hugain o benaethiaid o bob cwr o Gymru ran yn y peilot hyfforddi yng Nghymru rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2006.

Cefndir

Y Rhaglen Ddatblygu ar gyfer Arweinyddiaeth Ymgynghorol

5 Yn Lloegr, ceir Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth pum rhan[1]. Yr enw ar y cam olaf yw 'arweinyddiaeth ymgynghorol'. Ymgymerir ag arweinyddiaeth ymgynghorol pan fydd arweinydd galluog a phrofiadol yn barod i roi rhywbeth yn ôl i'r proffesiwn drwy ymgymryd â hyfforddiant, mentora, arolygu neu gyfrifoldebau eraill. Mae'r 'Rhaglen Ddatblygu ar gyfer Arweinyddiaeth Ymgynghorol' yn cynnig hyfforddiant i helpu penaethiaid â'r cam hwn o'u datblygiad. Mae angen i ymgeiswyr feddu ar o leiaf bum mlynedd o brofiad fel pennaeth a'u bod yn gallu cynnig tystiolaeth o arweinyddiaeth lwyddiannus. Fel arfer, dylent hefyd fod wedi cwblhau'r Rhaglen Arweinyddiaeth i Benaethiaid mewn Swydd (LPSH).

6 Mae'r rhaglen ddatblygu yn canolbwyntio ar ennill medrau hyfforddi sydd eu hangen i ymateb i anghenion penodol dysgwyr sy'n gweithio gyda'r ymgynghorydd. Mae'n seiliedig ar fframwaith o gymwyseddau perthnasol. Athroniaeth y rhaglen yw bod arweinwyr yn gallu cyflawni eu hatebion eu hunain i'w problemau eu hunain drwy broses o ddeialog wedi'i chefnogi.

7 Caiff yr hyfforddiant ei roi drwy gyswllt wyneb yn wyneb â thiwtoriaid a mynediad i ddeunyddiau ar wefan NCSL.

Y rhaglen beilot yng Nghymru

8 Er bod y 'Rhaglen Ddatblygu ar gyfer Arweinyddiaeth Ymgynghorol' yn rhaglen sydd eisoes yn bodoli yn Lloegr fe'i cyflwynwyd fel peilot yng Nghymru.

9 Ar gyfer yr astudiaeth beilot yng Nghymru, ariannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru leoedd i 24 o benaethiaid presennol ar y rhaglen hyfforddi gychwynnol chwe diwrnod a chwe diwrnod arall ar ôl y rhaglen er mwyn iddynt ymgymryd â gwaith ymgynghorol. Byddai hyn yn gofyn iddynt weithio i ffwrdd o'u hysgolion eu hunain. Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i bob Awdurdod Addysg Lleol (AALl) yng Nghymru enwebu penaethiaid addas, y dylai un ohonynt fod yn bennaeth ysgol cyfrwng Cymraeg. Cynigiwyd yr hyfforddiant i o leiaf un pennaeth o bob AALl yng Nghymru. Dewisodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr ymgeiswyr terfynol. Rhannwyd yr ymgeiswyr hyn yn ddau grŵp cyfartal a ymgymerodd â'r hyfforddiant ar wahanol adegau.

10 Daeth y penaethiaid a gwblhaodd y rhaglen o 16 o ysgolion cynradd, pum ysgol uwchradd a thair ysgol arbennig.

11 Rhannwyd y rhaglen hyfforddi'n ddau fodiwl preswyl ac fe'u harweiniwyd gan ddau o staff yr NCSL. Ymgymerwyd â'r hyfforddiant yn Llangamarch ac yng Nghanolfan Dysgu a Chynadledda'r NCSL yn Nottingham.

[1] http://www.ncsl.org.uk/publications/ldf/publications-ldf-implications.cfm

12 Casglodd arolygwyr dystiolaeth am effaith y rhaglen o:

- gyfweliadau â thiwtoriaid yr NCSL;
- arolwg o'r holl benaethiaid a gwblhaodd y rhaglen;
- cyfweliadau dilynol â sampl gynrychioliadol o 25% o'r penaethiaid a gwblhaodd y rhaglen;
- arolwg o'r holl AALlau a gynrychiolwyd; a
- chyfarfod o'r penaethiaid a arweiniwyd gan diwtoriaid yr NCSL.

Prif ganfyddiadau

13 Mae'r Rhaglen Ddatblygu ar gyfer Arweinyddiaeth Ymgynghorol yn rhaglen dda sy'n datblygu medrau penaethiaid i gefnogi gwella ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r deunyddiau hyfforddi na chynnwys y rhaglen yn ystyried yr iaith Gymraeg na'r cyd-destun Cymreig.

14 Mae'r rhaglen yn seiliedig ar ddull hyfforddi. Mae'r penaethiaid yn y peilot yn ymateb yn dda i'r dull hwn.

15 Mae pob pennaeth ar y rhaglen beilot yn gadarnhaol iawn am y rhan fwyaf o'r agweddau ar y rhaglen. Gwnânt ddefnydd da o'r medrau a gawsant yng nghyd-destun eu hysgol eu hunain.

16 Creodd y rhaglen gyfle i benaethiaid ffurfio rhwydwaith proffesiynol ledled Cymru. Mae hyn yn helpu i benaethiaid rannu arfer dda a chynnig cefnogaeth i'r naill a'r llall yn natblygiad ysgolion.

17 Mae'r rhaglen yn gam nesaf effeithiol i benaethiaid sydd wedi cwblhau'r LPSH. Fodd bynnag, mae'r amser sy'n cael ei dreulio i ffwrdd o'u hysgol eu hunain yn rhwystr posibl i rai penaethiaid rhag gweithio fel ymgynghorwyr arweinyddiaeth mewn ardal awdurdod lleol.

18 Cafodd AALlau eu cynnwys yn y broses o ddewis ymgeiswyr ar gyfer y rhaglen ond nid oeddent wedi cael meini prawf dethol manwl gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a oedd yn adlewyrchu gofynion y rhaglen. Yn ogystal, yn dilyn dewis yr ymgeiswyr i gychwyn, ni chafodd yr AALlau wybodaeth ddigonol am sut y byddai penaethiaid yn cael eu defnyddio i gefnogi datblygiad ysgol yn eu hawdurdodau.

19 Nid yw'r un o'r penaethiaid yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau arweinyddiaeth ymgynghorol yn eu AALlau yn dilyn eu hyfforddiant.

20 Yn gyffredinol, mae'r rhaglen hon o fudd i benaethiaid yng Nghymru i'w helpu i ddatblygu'r medrau a'r cymwyseddau i gefnogi eraill mewn swyddi arweinyddiaeth ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen yn briodol i bob pennaeth ac felly nid yw'r rhaglen yn addas fel rhan orfodol o ddatblygiad gyrfa pob pennaeth.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 gynhyrchu llyfryn sy'n disgrifio'r NHDP yn glir a lle'r rhaglen fel un o ystod o ddewisiadau mewn dilyniant gyrfa clir i benaethiaid oddi mewn iddo;

A2 gwneud yn siŵr bod AALlau yn cael meini prawf clir a pherthnasol i helpu iddynt ddewis y penaethiaid mwyaf addas i'w hyfforddi'n arweinwyr ymgynghorol;

A3 rhoi gwybodaeth fanwl i benaethiaid ac AALlau am nodau'r rhaglen a sut bydd penaethiaid a rheolwyr awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhaglen i gefnogi datblygiad ysgolion. Dylai'r wybodaeth hon nodi'n glir yr ymrwymiadau amser sy'n gysylltiedig a dylai sicrhau bod penaethiaid yn ymwybodol y gallant gael eu defnyddio i gefnogi ysgolion eraill heblaw am eu hysgol eu hunain. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael o ddechrau'r rhaglen;

A4 datblygu fersiwn o'r hyfforddiant, sy'n ymgorffori'r iaith Gymraeg a'r cyd-destun Cymreig; a

A5 chynnwys AALlau fel partneriaid yn natblygiadau'r rhaglen hon yn y dyfodol fel eu bod yn deall cynnwys y rhaglen yn llawn a sut y caiff ei defnyddio i gefnogi datblygiad ysgolion.

Effaith y rhaglen arweinyddiaeth ymgynghorol ar benaethiaid ac AALlau

Dewis penaethiaid

21 Anfonodd Llywodraeth Cynulliad Cymru amlinelliad bras at bob AALl o gefndir y peilot a sut y byddai'n cael ei ariannu. Roedd modd i'r AALlau gael mynediad i fanylion llawn y rhaglen o'r ddolen a roddwyd i wefan NCSL. Fodd bynnag, gyda nifer fawr o benaethiaid i ddewis ohonynt, nid oedd y wybodaeth a roddwyd i AALlau yn cynnwys meini prawf a oedd yn ddigon clir i ddewis penaethiaid ar gyfer y peilot.

22 Gwnaeth panel o Lywodraeth Cynulliad Cymru y dewis terfynol o ymgeiswyr ar gyfer y peilot yn dilyn enwebiadau gan yr AALlau. Ni chafodd yr AALlau wybod pam y cafodd penaethiaid penodol eu dewis. Nid oedd bron pob pennaeth yn gwybod pam y cawsant eu dewis.

Materion yn codi o ddull hyfforddi'r rhaglen ddatblygu

23 Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid yng Nghymru yn gofyn bod penaethiaid yn mabwysiadu gwahanol arddulliau arweinyddiaeth fel y bo'n briodol. Mae'r rhaglen Arweinyddiaeth Ymgynghorol yn cynnig un o'r arddulliau hyn. Yn hynny o beth, mae'n gam nesaf addas i rai penaethiaid sydd wedi cwblhau'r tri cham datblygiad proffesiynol presennol. Nid yw'n addas i bob pennaeth gan fod defnydd llwyddiannus ar y rhaglen yn dibynnu ar nodi pa benaethiaid fydd yn elwa o gael datblygu'r agwedd hon ar eu harweinyddiaeth a phwy fydd â'r medrau priodol i'w chyflawni'n effeithiol. Mae hyn yn golygu nad yw'r rhaglen yn addas fel rhan orfodol o ddatblygiad gyrfa pob pennaeth.

24 Er bod y rhaglen yn datblygu medrau hyfforddi yn dda, mae angen i bob parti ddeall y dull er mwyn ei ddefnyddio'n effeithiol. Ar hyn o bryd, prin yw dealltwriaeth yr AALlau o'r dull hyfforddi a ddefnyddiwyd yn y rhaglen ddatblygu. Gall hyn eu hatal rhag hyrwyddo'i ddefnydd yn effeithiol mewn ysgolion ac ar gyfer datblygiad staff ar draws ardal yr awdurdod lleol.

25 Nid yw'r strategaeth hyfforddi sy'n cael ei defnyddio yn y rhaglen yn effeithiol oni bai bod digon o amser yn cael ei roi i feithrin perthynas o ymddiriedaeth rhwng yr arweinydd ymgynghorol a'r cydweithiwr sy'n cael ei gefnogi. Ni fydd dull y rhaglen yn effeithiol mewn amserlen realistig os yw arweinydd ymgynghorol yn cael ei orfodi ar ysgol heb ymgynghori priodol. Yn ogystal, mae rhai penaethiaid yn anfodlon ymgymryd â gweithgarwch arweinyddiaeth ymgynghorol os yw hyn yn golygu bod yn absennol am gyfnod hir o'u hysgol eu hunain er mwyn sefydlu perthynas waith addas gyda staff mewn ysgol arall.

26 Nid yw'r hyfforddiant na deunyddiau'r rhaglen yn adlewyrchu'r cyd-destun addysg penodol yng Nghymru na'r defnydd ar yr iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr NCSL staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfle yn bodoli i benaethiaid yn y peilot gael eu hachredu fel hyfforddwyr ac i gynnig hyfforddiant yng Nghymru i bobl eraill drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Effaith y rhaglen ddatblygu ar benaethiaid

27 Ychydig iawn o benaethiaid a oedd yn glir am y cysyniad o arweinyddiaeth ymgynghorol ar ddechrau'r hyfforddiant. Roeddent hefyd yn ansicr o ran yr hyn a ddisgwyliwyd ohonynt cyn, yn ystod ac ar ôl yr hyfforddiant. Er gwaethaf hyn, cafodd cynnwys y rhaglen effaith symbylol rymus ar yr holl benaethiaid a gymerodd ran. Daeth y penaethiaid yn gadarnhaol iawn am y rhan fwyaf o'r agweddau ar y rhaglen.

28 Mae'r holl benaethiaid y cawsant eu cyfweld wedi gwella'u medrau eu hunain drwy fynychu'r hyfforddiant. Maen nhw'n gwneud defnydd da ar y medrau hyn yn eu hysgolion eu hunain i ddatblygu dysgu athrawon eraill, gan gynnwys y rhai sydd mewn swyddi arweinyddiaeth ysgol. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r penaethiaid yn dymuno gweithio fel arweinwyr ymgynghorol y tu allan i'w hysgolion eu hunain. Ni fyddai ambell un wedi ymgymryd â'r hyfforddiant petaent yn gwybod bod hyn yn rhan o'r rhaglen.

29 Mae'r hyfforddiant yn rhoi medrau da i benaethiaid i gefnogi ysgolion yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Fodd bynnag, dywedodd bron pob pennaeth a gafodd eu cyfweld y byddai'n well ganddynt weithio'n lleol gyda chydweithwyr yn eu sector eu hunain.

30 Mae'r penaethiaid yn rhoi gwerth arbennig ar y cyfle a gynigiwyd gan y rhaglen, i hyfforddi a thrafod syniadau gyda phenaethiaid eraill o wahanol sectorau ac ardaloedd daearyddol o Gymru. Cynigiodd y rhaglen gyfle da i benaethiaid ffurfio rhwydwaith proffesiynol ar draws Cymru. Mae penaethiaid yn y rhaglen eisiau i hyn barhau a chael ei ymestyn i gynnwys pob cydweithiwr mewn 'rhwydwaith cenedlaethol' a all rannu arfer dda, llunio ymatebion cyffredin i ymgynghoriadau a chynnig cefnogaeth i'w gilydd o ran datblygiad ysgolion.

Effaith y rhaglen ar AALlau

31 Nid oedd AALlau yn glir cyn yr astudiaeth beilot am ganlyniad arfaethedig y rhaglen beilot a'i rôl ynddi.

32 Nid oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi esbonio'n ddigon clir i AALlau sut y dylent fod yn rhan o weithio gyda phenaethiaid ar ôl eu hyfforddiant cychwynnol mewn arweinyddiaeth ymgynghorol. Nid oes un pennaeth yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i helpu i gefnogi datblygiad ysgol y tu allan i'w hysgolion eu hunain. O ganlyniad, nid oes tystiolaeth eto o effaith ehangach y peilot mewn AALlau.